ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD FFORWM Y CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL

Nodiadau DRAFFT y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ddydd Gwener Awst 8fed, am 10.30 am yng Nganolfan Ddinesig Penllergaer

Presennol

Y Cynghorydd P Palmer (Cadeirydd)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd T Theophilus	Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd T D Morgans	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Cynghorydd M Taylor	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Y Cynghorydd B Hall	Cyngor Sir Penfro
Y Cynghorydd R R Hayes	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Y Cynghorydd D I E Jones	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd R M Granville	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Y Cynghorydd W H C Teesdale	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr

Swyddogion

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Howell Baeton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting cyf.
Bleddyn Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Eifion Bowen	Cyngor Sir Caerfyrddin
Philip Williams	Cyngor Sir Caerfyrddin
Carol Williams	CS Penfro/Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Alison Thomas	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
William Mills	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Steve Bool	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Huw Jenkins	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Cathy O'Brien	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd (Ardal y De Orllewin)
Philip Marks	Cylch
Adrian Stewart	WESA / Shanks

1. **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd K T Rowlands	Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
Y Cynghorydd B Owen	Dinas a Sir Abertawe
Y Cynghorydd K Evans	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fai 19eg 2003**

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Adroddodd GW am ddatblygiad pethau yn y ddau ranbarth arall. Mae'r De-Ddwyrain wedi cytuno Drafft Ymgynghorol ac maen nhw ar ddechrau eu hymarfer ymgynghori cyhoeddus, ac mae cyfarfod gan y Gogledd ar Awst 13eg i gytuno eu Drafft Ymgynghorol.

Cadarnhaodd GW bod pob un o'r tri rhanbarth ar gam tebyg yn y broses.

Cadarnhawyd bod Pen-y-Bont ar Ogwr wedi derbyn cyflwyniad ar y CGR, a roddwyd gan SLR i aelodau'r Cyngor a bod Sir Gaerfyrddin wedi trefnu'r un cyflwyniad ar gyfer aelodau eu cyngor nhw. Dylid gwneud unrhyw geisiadau pellach cyn gynted ag sy'n bosib

Eitem 8: GD i ofyn am gadarnhad ynghylch a yw Cyngor Sir Ceredigion wedi derbyn y Memorandwm Dealltwriaeth neu beidio.

3. Nodiadau'r Grŵp Technegol Mehefin 13eg 2003

Nodwyd.

Eitem 3: Adroddodd CP bod Dinas a Sir Abertawe wedi penderfynu gohirio ymgynghori â'r cyhoedd ar eu Strategaeth Gwastraff Trefol.

4. **Nodiadau'r Grŵp Technegol Gorffennaf 9fed 2003**

Nodwyd.

Eitem 4: Mynegwyd pryderon na fydd yr arolwg post yn gyfangwbl ddwyieithog. Adroddodd CP bod penderfyniad wedi cael ei wneud ar sail cynllun a'r cyngor a dderbyniwyd ynghylch cyfraddau dychwelyd posibl yn hytrach na chost. Nodwyd bod y llythyr eglurhaol yn ddwyieithog a bod fersiwn Gymraeg o'r holiadur ar gael ar gais.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Palmer bwysigrwydd sicrhau bod y Fersiwn Gymraeg ar gael ac yn cael ei hanfon ar gais ar unwaith.

Awgrymwyd y dylid rhoi paragraff yn y llythyr eglurhaol i esbonio'r rhesymu tu ôl i'r penderfyniad. **Gweithredu** GW i adolygu'r llythyr eglurhaol.

Nodwyd hefyd na fydd y CGR (Drafft Ymgynghorol) yn cael ei gyfieithu, ond bydd cyfieithiad o'r CGR terfynol.

5. **Nodiadau'r Grŵp Technegol Gorffennaf 21ain 2003**

Nodwyd

6. **Ymgynghori â'r Cyhoedd**

Adroddodd GW y byddai'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ar Ddydd Llun Medi 1af ac yn dod i ben ar Ddydd Gwener Hydref 10fed. Mewn cysylltiad ag arddangosfa a phamffledi a fydd ar gael i bob awdurdod, comisiynwyd Research & Marketing Cyf. i weithredu arolwg o 6000 o breswylwyr ar draws y rhanbarth a 350 o randdeiliaid sydd â diddordeb, sy'n cynnwys pob Cyngor Trefol a Chymunedol yn y rhanbarth.

Mewn cysylltiad â'r arolwg post, bydd grwpiau ffocws yn cael eu trefnu a bydd y broses hon yn helpu i hysbysu'r CGR gwreiddiol ar gyfer De Orllewin Cymru. Cadarnhawyd na fydd disgwyl i swyddogion fod yn bresennol yn y grwpiau ffocws yn eu hardal.

Mynegodd y Cynghorydd Jones bryderon ynghylch cynnwys manwl y deunydd ymgynghorol. Yng ngoleuni ymgynghoriad neilltuol Dinas a Sir Abertawe ar eu Strategaeth Gwastraff Trefol, mae gwir bosibilrwydd y bydd preswylwyr lleol yn cael eu drysu.

Cytunwyd dosbarthu'r deunydd o'r arolwg er gwybodaeth. **Gweithredu:** CM.

Trafodwyd mater trefnu ffotograffau er cyhoeddusrwydd ar gyfer bob awdurdod lleol. Cytunwyd y dylid ei wneud os oedd modd ei wneud. **Gweithredu:** GW i gysylltu â Pamela Crecraft.

Nodwyd bod gan Ddinas a Sir Abertawe bryderon.

7. **Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Drafft**

Adroddodd AF ar y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (Drafft Ymgynghorol), gan ddisgrifio ac esbonio'r cynnwys, y strwythur a'r broses o wneud penderfyniadau a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Cynllun.

Cytunwyd: Cadarnheir y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol (Drafft Ymgynghorol) fel dogfen ymgynghorol.
Dinas a Sir Abertawe: Wedi Atal Pleidlais.

8. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Adroddodd GW y bydd angen dau gyfarfod pellach o'r fforwm, gyda'r un cyntaf yn derbyn cyflwyniad gan Research & Marketing cyf. ynghylch canlyniadau'r arolwg, a'r ail i ystyried y CGR terfynol.

Gweithredu: GW i drafod gyda'r Cynghorydd Palmer a chadarnhau'r dyddiadau cyn gynted ag sy'n bosib.

9. **Unrhyw faterion eraill**

Adroddwyd er gwybodaeth bod seminar ar Wastraff Peryglus / Cynllunio Defnydd o Dir wedi cael ei drefnu ar gyfer Dydd Iau Medi 25ain, yng Nghaersws, ger y Drenewydd.

Awgrymwyd y dylid rhoi'r ffordd y mae polisiau CDU yn ymdrin â gwastraff peryglus ar yr agenda.

Gofynnwyd am arwydd clir o statws y CGR gan LlCC. Cynigiodd SM gyfarfod i unrhyw awdurdod lleol a oedd eisiau trafod y mater. **Gweithredu:** SM i gysylltu ag Elaine Ancrum.